dros adferiad o afiechyd meddwl difrifol

hafal

for recovery from serious mental illness

# Blaenau Gwent

## Adroddiad Blynyddol 2010-2011

Ym Mlaenau Gwent, mae Hafal yn darparu Canolfan Addysg, Adnoddau, Hyfforddiant a Chyflogaeth sydd yn cefnogi unigolion sydd yn gwella o afiechyd meddwl difrifol a'u gofalwyr. Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei lleoli yn Neuadd Godwin, Llanhilleth, yn cynnig ystod o wasanaethau i ddefnyddwyr gwasanaeth a/neu ofalwyr gan gynnwys garddio, hyfforddiant cyfrifiadur, sgiliau bwyta'n iach a choginio, dosbarthiadau Cymraeg cychwynnol, celf a chrefft, olrhain straeon yn ddigidol a gweithgareddau cymdeithasol/corfforol megis pŵl, bwrdd tenis a gemau dan do eraill.

Ym 2010-2011, roedd y Ganolfan wedi datblygu gweithgareddau a gwasanaethau newydd gan gynnwys grŵp cerdded, tiwtora cerdded Nordig, ysgrifennu creadigol a ddarparwyd gan WEA ac animeiddio cyfrifiadur a ddarparwyd gan Communities 2.0.

Yn ystod y flwyddyn, roedd y prosiect wedi derbyn nifer o wobrwyon ariannu i gynnal gweithgareddau. Roedd Her lechyd Blaenau Gwent wedi rhoi £1,525 i'r prosiect fel y gallai'r Ymarferydd Prosiect fynychu cwrs Hylendid Bwyd Lefel 4 a chwrs Arweinydd Cerdded Nordig a bod modd prynu'r offer perthnasol. Mae offer megis byrddau gwyn, system rheilffordd siart troi, cloriau llyfrau, silffoedd, teledu modern, chwaraewr DVD a recordydd digidol chwyddo ar gyfer olrhain stori ar gyfrifiadur wedi eu prynu gyda'r cyllid newydd, sydd wedi ei weinyddu gan GAVO, o £2000, ac sydd yn caniatáu'r grŵp i gynnig ystod o weithgareddau mwy amrywiol.

Mae Cymunedau'n Gyntaf St Illtyd yn Llanhilleth wedi darparu 20 o sesiynau bwyta'n iach a gwirfoddolwr cymunedol i gynnal y sesiynau. Darparwyd dosbarthiadau Cymraeg cychwynnol gyda chymorth gan Brifysgol Morgannwg gyda sesiynau parhaus yn defnyddio'r rhaglen gyfrifiadur "Say it in Welsh" sydd ar gael o fewn y cyfleuster Technoleg Gwybodaeth a ddarperir. Mae'r prosiect garddio, a ariannwyd gan Mentro Allan (y Loteri Fawr) a'i chefnogi gan BTCV Green Gym, hefyd wedi parhau i ddatblygu.

Roedd Blaenau Gwent wedi cynnal Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Awst 2010, lle'r oedd Hafal wedi cynnal ei ddigwyddiad 'Ffordd Tuag at Adferiad' Blaenau Gwent (lluniau isod).

Wrth weithio mewn partneriaeth â Heads for Arts, roedd defnyddwyr gwasanaeth wedi paentio murlun o'r ddraig Gymreig a thirlun y cymoedd mewn neuadd capel lleol ar gyfer clwb ieuenctid (gweler isod).

Wrth i'r prosiect ddatblygu, mae yna gyswllt rheolaidd yn cael ei gynnal gyda'r Tîm lechyd Meddwl Cymunedol. Mae cyfarfodydd partneriaeth misol wedi cychwyn gyda Vision House (Gwasanaethau Cymdeithasol) a'r prosiect Phoenix (MIND) er mwyn edrych ar ba weithgareddau a chyfleoedd sydd ar gael ym mhob un ganolfan a sut y mae defnyddwyr gwasanaeth yn medru cael mynediad atynt tra'n osgoi dyblygu gwasanaethau sydd yn cael eu darparu yn lleol.

http://www.hafal.org/hafal/cymraeg/gwent.php

Godwyn Hall, Heol Masnachol,
Llanilleth
Ffôn: 01495 214 715
e-bost : blaenaugwent@hafal.org